# Cronfa Benthyciad Canol Trefi Gwynedd Canllawiau Gwybodaeth i Ddarpar Ymgeiswyr

Mae ffurflenni cais ar gael gan Dîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd ar 01286 679231 neu e-bost: busnes@gwynedd.llyw.cymru - rhaid i bob darpar ymgeisydd gysylltu â'r Tîm Cefnogi Busnes er mwyn trafod ei gynnig cyn cyflwyno cais.

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Cynllun Cyllido Ad-daladwy Canol Trefi yn gynllun i ddarparu cyllid ad-daladwy i gefnogi adfywio canol trefi ac i ddatblygu lleoedd bywiog a hyfyw trwy rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2020/21 cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ddyraniad o £10m ar gyfer y Cynllun Cyllido Ad-daladwy Benthyciad Canol Trefi. Roedd hyn yn ychwanegol at y £31.95m a ddarparwyd i awdurdodau ledled Cymru.

Fel mewn rowndiau blaenorol, nodau craidd y cynllun yw lleihau nifer y safleoedd ac adeiladau gwag, annigonol a diangen yng nghanol trefi a chefnogi arallgyfeirio canol trefi. Bydd y cynllun hwn yn annog defnyddiau mwy cynaliadwy ar gyfer safleoedd ac adeiladau gwag, megis gwasanaethau preswyl, hamdden ac ar gyfer gwasanaethau allweddol. Trwy gefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi dylai'r canlyniadau ganolbwyntio ar gefnogi creu swyddi a thwf economaidd, mynd i'r afael â thlodi, cynyddu cyflenwad ac ansawdd y cynnig llety, a chefnogi hyfforddiant a recriwtio wedi'i dargedu yn ystod y gwaith adeiladu.

## 2. MANYLION Y BENTHYCIAD

### 2.1 Maint, cyfnod a diogelwch y buddsoddiad

Bydd isafswm benthyciad yn £5,000. Nid oes uchafswm benthyciad hyd at y balans ar gael sydd yn weddill yn y gronfa. Y cyfnod hiraf i unrhyw fenthyciad fydd 7 mlynedd.

Mae dewis o delerau ad-dalu:-

- Ad-daliadau rheolaidd misol neu chwarterol
- Ad-daliad llawn ar ddiwedd y cyfnod benthyciad
- Ad-daliad drwy werthu’r eiddo.

Bydd angen sicrwydd dros asedau busnes ble y bo modd er y derbynnir y gall fod yn gyffredin cael arwystlon yn sefyll tu ôl bancwyr y cwmni. Fodd bynnag, wrth gydbwyso risgiau’r perchennog yn erbyn risgiau’r Gronfa, byddem yn sicrhau gwarantau personol pan fo hynny’n briodol.

### 2.2 Ceisiadau sy’n gymwys i dderbyn cefnogaeth

Mae’r Gronfa yn gweithredu y tu mewn i ffiniau canlynol: Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Porthmadog, Pwllheli, Bethesda, Llanberis, Penygroes, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Cricieth, Y Bala, Abersoch, Dolgellau, Abermaw, Tywyn, Harlech, Aberdyfi, a chanol dinas Bangor ac fe ddylai pob eiddo sydd yn destun cais fod wedi ei leoli oddi fewn y ffiniau yma.

Nid yw benthyciadau ar gyfer clirio dyledion neu fenthyciadau cyfredol gan fenthycwyr yn gymwys i'w ystyried. Gall perchnogion yr eiddo fod yn fusnesau (unig fasnachwr/partneriaeth/cwmnïau), mentrau cymdeithasol, landlordiaid, cymdeithasau tai, datblygwyr, neu preswylwyr preifat. Fe fydd ymgeiswyr gyda'r gallu i sicrhau benthyciad masnachol i ariannu'r gwelliannau yn cael eu cyfeirio i ffynonellau perthnasol eraill

Cyfyngir cymhwyster i berchnogion eiddo i bwrpas gostwng y nifer o safleoedd ac adeiladau gwag, tanddefnyddiol a ddiangen, a chefnogi arallgyfeirio drwy annog defnyddiau mwy cynaliadwy i safleoedd ac eiddo gwag fel preswyl, hamdden a gwasanaethau allweddol.

Gall perchnogion yr eiddo fod yn fusnesau (unig fasnachwr/partneriaeth/cwmnïau), mentrau cymdeithasol, landlordiaid, cymdeithasau tai, datblygwyr, neu preswylwyr preifat.

- Fe fydd ymgeiswyr gyda'r gallu i sicrhau benthyciad masnachol i ariannu'r gwelliannau yn cael eu cyfeirio i ffynonellau perthnasol eraill.
- Gellir ddefnyddio cronfeydd ariannol eraill ar y cyd hefo'r benthyciad, cyn belled eu bod yn ariannu gwaith ar wahân.
- Mae angen i bob ymgeisydd ddangos y gallu i ad-dalu'r benthyciad:-

a) Busnesau a mentrau cymdeithasol i ddarparu cynllun busnes, o leiaf 3 mlynedd cyfrifon ariannol, rhagolygon llif arian ac elw a cholled;
b) Landlordiaid i ddarparu manylion o'r holl eiddo yn eu pherchnogaeth, ac incwm rhent;
c) Preswylwyr preifat i ddarparu manylion o incwm a cynllunydd cyllideb personol

Mae angen i phob cais gydymffurfio gyda Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol.

**2.3 Prisiau**
Nid oes llog yn daladwy ar fenthyciadau. Mae ffi unwaith ac am byth hyd at 15% yn daladwy gan bob benthyciwr ar gyfer unrhyw dreuliau neu gostau a gafwyd, ac i adlewyrchu'r lefel risg. Mae'r ffioedd sefydlog a gafwyd gan y Cyngor fel ffioedd cyfreithiol, ffioedd prisio, ac adroddiadau gwerthusiad ariannol, angen eu ad-dalu gan yr ymgeisydd yn llawn cyn i'r benthyciad cael ei rhyddhau. Mae'r ffi i adlewyrchu'r lefel risg yn ddibynnol ar gymhareb benthyciad i werth ein arwystl, a phenderfynir hyn gan y Panel Benthyciadau.

**3. Y BROSES FENTHYCA**

Bydd mynediad a gwybodaeth ar gael drwy sawl dull:

**3.1 Ymholiadau Cychwynnol**
- Bydd manylion y gronfa, meini prawf cymhwyster a ffurflenni ymholiad i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd. Bydd cyfeiriad e-bost ynghlwm wrth y ffurflen ymholiad fel y gellir cyflwyno'r ffurflen yn uniongyrchol i ymholiadau Cyngor Gwynedd.

- Bydd Tîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd yn gallu rheoli ymholiadau uniongyrchol gan gleientiaid neu ganolwyr posib.
- Dylid dychwelyd ffurflenni ymholiad (print neu electronig) i Gyngor Gwynedd er mwyn derbyn ymateb cychwynnol.

Fe asesir ymholiadau cychwynnol ar sail cymhwyster fel y nodir uchod. Mae'r rhain yn cynnwys natur y cais, y swm a'r lleoliad. Os mae'r ymholiad yn gymwys, bydd y telerau ariannol yn cael eu hegluro a bydd ffurflenni cais yn cael eu darparu ynghyd â chanllawiau benthyciad sy'n rhoi manylion ynghylch pa ddogfennaeth gefnogol fydd angen ei chyflwyno.-

**3.2 Cais am Fenthyciad a'i Brosesu Ceisiadau**

Ceisiadau

Bydd y Tîm Cefnogi Busnes yn derbyn y ffurflenni cais ac yn dilyn dau gam cymhwyso:

1. Cynnal gwerthusiad wrth y ddesg o'r ffurflen gais, y cynllun busnes a'r ddogfennaeth gefnogol. Os bydd yn foddhaol, yna:-
2. Trefnir bod y ceisiadau cyflawn yn cael eu hanfon at yr Ymgynghorydd Ariannol fel y gall gynnal gwerthusiad ariannol ac asesiad manwl ohonynt. (Ni ragwelir yr angen o gael gwerthusiad ariannol manwl ar gyfer rhai ceisiadau, e.e. perchnogion tai preifat, landlordiaid sector breifat)

Gwerthuso wrth y ddesg

- Gwerthusiad masnachol: Bydd pob cais yn cael ei werthuso gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion ymarfer benthyca da, yn cynnwys gwirio credyd, meini prawf y cynllun yn cael eu cyflawni, prawf adnabod (ID), gwrthodiad banc a chynllun busnes (os yn berthnasol).

Gwerthusiad Ceisiadau am Fenthyciad

- Bydd yr Ymgynghorydd Ariannol a benodir, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd, yn darparu adroddiad cynhwysfawr yn cynnwys cydnabyddiaeth o unrhyw risg sydd ynghlwm â'r buddsoddiad, gwybodaeth am unrhyw gyflyrau marchnad cyfredol ac argymhelliad clir a chryno i'w gyflwyno i Banel Benthyciadau Cyngor Gwynedd.

Bydd angen yr wybodaeth a ganlyn er mwyn asesu'r ceisiadau am fenthyciad:-

a) Busnesau, Mentrau Cymdeithasol a Datblygwyr

- Cynllun busnes sy'n nodi manylion y busnes a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- CV manwl ar gyfer holl berchnogion, cyfarwyddwyr a phartneriaid y busnes.
- Cyfrifon wedi'u harchwilio am y tair blynedd ddiwethaf.
- Copïau o gyfriflenni banc y chwe mis diwethaf.
- Rhagamcanion o'r fantolen, elw a cholled a llif arian am y ddwy flynedd nesaf.
- Copi o basport neu trwydded yrru ffotograffic i bob perchennog busnes.
- Dyfynbrisiau ar gyfer gwelliannau'r eiddo
- Tystiolaeth o ganiatâd cynllunio a / neu cymeradwyaeth Rheolaeth Adeiladu.

b) Landlordiaid a Chymdeithasau Tai

- Cynllun busnes sy'n nodi manylion y busnes a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol (os yn berthnasol)  CV manwl ar gyfer holl bartïon y cais
- Cyfrifon wedi'u harchwilio am y tair blynedd ddiwethaf (os yn berthnasol), neu manylion llawn o incwm rhent
- Copïau o gyfriflenni banc y chwe mis diwethaf
- Rhestr o eiddo o dan berchnogaeth yr ymgeisydd (os yn berthnasol)
- Manylion o fenthyciadau eraill sydd yn weddill (os yn berthnasol)  Copi o basport neu trwydded yrru ffotograffic i bob perchen yr eiddo.
- Copi o drwydded landlord (os yn berthnasol)
- Dyfynbrisiau ar gyfer gwelliannau'r eiddo.
- Tystiolaeth o ganiatâd cynllunio a /neu cymeradwyaeth Rheolaeth Adeiladu.

c) Perchnogion Tai Preswyl

- CV manwl ar gyfer holl bartïon y cais
- Copïau o gyfriflenni banc y chwe mis diwethaf
- Tystiolaeth incwm  Manylion o fenthyciadau eraill sydd yn weddill (os yn berthnasol)
- Copi o basport neu trwydded yrru ffotograffic i bob perchen yr eiddo
- Dyfynbrisiau ar gyfer gwelliannau'r eiddo.
- Tystiolaeth o ganiatâd cynllunio a / neu cymeradwyaeth Rheolaeth Adeiladu.

Panel Cronfa Fenthyciadau

Mae Panel Gronfa Fenthyciadau wedi sefydlu a bydd ganddo'r datganiad o bwrpas a ganlyn:

- Rhoi ystyriaeth haeddiannol i geisiadau i'r gronfa fenthyciadau a gyflwynir i Gyngor Gwynedd gan perchnogion eiddo.
- Argymell cymeradwyo ceisiadau i'r gronfa fenthyciadau neu beidio, ynghyd ag amodau a thelerau penodol yng nghyswllt y cyfnod ad-dalu a cael gwarant i ddiogelu'r benthyciad.

Gellir y Panel wneud un o bedwar penderfyniad posib:

- Angen gwybodaeth pellach
- Cytuno heb amodau
- Cytuno gydag amodau
- Gwrthod y cais am fenthyciad

Hysbysir yr ymgeisydd ynghylch canlyniad Panel y Gronfa Fenthyciadau o fewn 48 awr. Os gwrthodir y cais, fe hysbysir yr ymgeisydd ynghylch y Drefn Apêl.

Cynigion y Drefn Apêl

- Bydd gan y cleient yr hawl i apelio os yw'r cais yn cael ei wrthod, ond bydd gofyn i'r cleient gyflwyno'i apêl yn ysgrifenedig cyn pen 7 diwrnod gwaith gan nodi rhesymau penodol am yr apêl.

- Cyflwynir yr Apêl yng nghyfarfod nesaf Panel y Gronfa Fenthyciadau ac hysbysir y cleient ynghylch y penderfyniad.

Cytundebau Benthyciadau

- Cyflwynir Cytundeb Benthyciad ynghyd ag unrhyw ddogfennau angenrheidiol eraill megis gwarantau Cyfarwyddwr, dogfennau sicrwydd a ffurflenni gorchymyn sefydlog. Cyflwynir Cytundebau Benthyciad cyn pen 10 diwrnod gwaith o gymeradwyo'r cais.
- Ym mhob amgylchiadau, bydd angen sicrwydd fel modd o Arwystl Gyfreithiol. Dan yr amgylchiadau hyn bydd Cyngor Gwynedd yn gofyn am wybodaeth ddigonol ynghylch unrhyw eiddo ym mherchnogaeth yr ymgeisydd fel y gall fwrw ymlaen.
- Bydd gan ymgeiswyr 30 diwrnod i dderbyn telerau ac amodau'r cynnig benthyciad; wedi hynny daw'r cynnig i ben.
- Yn dilyn derbyn y cynnig a chwblhau unrhyw ddogfennaeth sicrwydd angenrheidiol, bydd y benthyciad yn barod i'w ddefnyddio.

Talu

- Telir y benthyciad trwy BACS i gyfrif banc dynodedig yr ymgeisydd.
- Mae unrhyw ffioedd trefnu neu ffioedd sicrwydd yn daladwy cyn tynnu'r benthyciad

Monitro

Fe fydd swyddogion Cyngor Gwynedd yn monitro defnydd y gronfa benthyciad gan drefnu ymweliadau i'r eiddo, gan gynnwys tynnu lluniau cyn, yn ystod (mewn rhai amgylchiadau), ac ar derfyn y gwelliannau.

Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR
GWYNEDD